Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

## Ysgol Abercaseg
## Bethesda
## Gwynedd
## LL57 3PL

## Dyddiad yr arolygiad:  Chwefror 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Abercaseg

Lleolir Ysgol Abercaseg yn nhref Bethesda yng Ngwynedd. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 144 disgybl rhwng 3 ac 7 oed ar y gofrestr. Ers mis Ionawr 2017, mae'r ysgol wedi ffedereiddio ag Ysgol Pen-y-Bryn sydd o fewn yr un dref.

Cyfran gyfartalog y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim dros y tair blynedd ddiwethaf yw 15%. Mae hyn yn is na'r ganran genedlaethol, sy'n 19%. Mae 63% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod ychydig dros 11% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, ond ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ganran sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ychydig yn is na'r ganran genedlaethol, sy'n 21%.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Ebrill 2016, gyda'r ysgol yn ffedereiddio ag Ysgol Pen-y-Bryn ym mis Ionawr 2017. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Chwefror 2012.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol Abercaseg yn ysgol hapus ble mae llais y disgybl yn cael lle amlwg ym mywyd a gwaith yr ysgol. Mae gallu'r disgyblion i weithio'n annibynnol ac i ddyfalbarhau ar dasgau yn gryfder drwy'r ysgol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn o'u man cychwyn ac yn cyflawni safonau uchel. Mae ymddygiad y disgyblion yn wych ac mae yna ymdeimlad o drefn weithgar a pharch drwy'r ysgol.

Mae safon yr addysgu'n dda ac mae gan y disgyblion gyfleoedd eang i ymgymryd â gweithgareddau heriol sy'n eu hysgogi ac yn ennyn eu diddordeb. Mae perthynas gref rhwng yr holl oedolion a'r disgyblion ac maent yn ystyried anghenion pob disgybl yn dda. Mae'r staff yn mynnu ar gywirdeb iaith, ac fe adlewyrchir hyn yn yr iaith goeth a chyfoethog ar wefusau ac yn llyfrau'r disgyblion.

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir sydd wedi ei rhannu'n llwyddiannus rhwng y ddwy ysgol yn y ffederasiwn. Mae hyn yn seiliedig ar ddarparu addysg o safon uchel i'r disgyblion. Mae hyn yn eu hannog i feithrin y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i fod yn aelodau cyfrifol o'u cymuned.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau dilyniant ym medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu disgyblion wrth iddynt symud trwy'r ysgol

A2 Rhannu mwy o arferion da ar draws y ddwy ysgol yn y ffederasiwn

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd Ysgol Abercaseg i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â datblygu medrau annibynnol y dysgwyr, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Ar fynediad i'r ysgol, mae gan lawer o ddisgyblion fedrau is na'r disgwyl ar gyfer eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yno, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da iawn yn eu dysgu o'u mannau cychwyn, gan gynnwys disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae disgyblion yn datblygu eu medrau llafar yn arbennig o dda. Wrth iddynt symud drwy'r cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'r iaith yn gwbl hyderus wrth drafod ag oedolion ac wrth weithio gyda'u cyfoedion. Yn y meithrin, maent yn trafod storïau a digwyddiadau bob dydd yn hyderus gyda'i gilydd a gyda oedolion. Erbyn Blwyddyn 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio iaith goeth, safonol wrth drafod eu gwaith ac wrth ddewis darn maent yn falch ohono, gan roi rhesymau synhwyrol am y dewis. Maent yn siarad mewn brawddegau estynedig, gyda geirfa aeddfed. Mae bron pob disgybl yn gwrando'n astud ar oedolion ac ar ei gilydd. Maent yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau ac i storïau a gwasanaethau dosbarth. Mae hyn yn ychwanegu at yr ymdeimlad o drefn weithgar a pharch drwy'r ysgol.

Mae'r disgyblion ifancaf yn datblygu medrau darllen elfennol yn gynnar, gan ddangos diddordeb mewn llyfrau a storïau. Mae'r medrau hyn yn datblygu'n effeithiol drwy'r ysgol. Maent yn darllen gyda rhuglder cynyddol, gan dalu sylw da i'r atalnodi. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn dda ac maent yn cywiro eu hunain os ydynt yn gwneud camgymeriad. Mae bron pob disgybl yn defnyddio eu gwybodaeth o ffoneg syml i ddarllen geiriau newydd neu anghyfarwydd yn llwyddiannus, o fewn eu gallu. Mae llawer yn defnyddio geiriaduron syml yn effeithiol.

Mae medrau ysgrifennu bron pob disgybl yn datblygu'n dda drwy'r ysgol. Mae llawer o'r disgyblion ifancaf yn dechrau gwneud marciau addas i gyd-fynd â stori, er enghraifft stori'r tri arth. Maent yn defnyddio llechen gyfrifiadurol i ymarfer llunio llythrennau'n gywir. Ym Mlwyddyn 1, mae'r rhan fwyaf yn llwyddo i ysgrifennu cyfres o frawddegau cyffrous i ailadrodd stori dosbarth. Erbyn Blwyddyn 2, mae bron pob disgybl yn ysgrifennu i wahanol bwrpasau i safon uchel o dan gyfarwyddyd oedolyn, er enghraifft mewn llythyron i ddiolch i ymwelwyr am ddod i'r ysgol, a phortreadau o gymeriadau stori. Mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio geirfa aeddfed mewn brawddegau mwy estynedig. Maent yn defnyddio fframweithiau ysgrifennu yn fedrus i gynhyrchu gwaith o safon uchel.

Mae medrau mathemategol rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n arbennig o dda. Yn y meithrin, mae rhan fwyaf y disgyblion yn trefnu gwrthrychau yn ôl maint yn llwyddiannus, yn cyfri ymlaen ac yn ôl fesul 1 ac yn dechrau adnabod a thrafod brawddegau rhif. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn fathemategwyr sydd yn ymdrin â gwaith ar lefel uchel ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r berthynas rhwng rhifau. Maent yn trin a thrafod rhifau yn y miloedd, ac yn dyblu a haneru rhifau hyd at gant, gan gynnwys degolion. Maent yn mesur yn gywir mewn centimetrau, gramau a milimetrau. Mae bron pob disgybl yn cymhwyso eu gwybodaeth fathemategol i ddatrys problemau fwyfwy cymhleth yn annibynnol a gyda phartner, er enghraifft wrth ddatrys symiau er mwyn defnyddio'r wybodaeth ar gyfer darganfod a mesur y gwregys cywir i 'Siôn y cawr'.

Mae bron pob disgybl yn dyfalbarhau yn eithriadol o dda ac yn defnyddio eu medrau meddwl yn fedrus i gymhwyso eu dealltwriaeth i ddatrys problemau yn llwyddiannus. Enghraifft dda o hyn yw pan mae angen datrys symiau cynyddol anodd i ddewis cod sydd yn datgloi rhan o stori chwedlau'r Mabinogi. Mae'r disgyblion yn didoli'r testun i'r chwedl berthnasol cyn gosod y testun yn ei drefn gywir.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) priodol gyda chymorth oedolion. Maent yn defnyddio pecynnau cyhoeddi gwahanol yn effeithiol, er enghraifft i greu gwahoddiad i awdur ymweld â'r ysgol, ac i arddangos lluniau a thestun am eu taith i goedwig leol. Gallant reoli tegan rhaglenadwy yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf yn gallu mewnbynnu data syml i daenlen er mwyn creu graff gyda'r wybodaeth, er enghraifft o hoff fwyd disgyblion y dosbarth. Mae'r rhan fwyaf yn gallu cadw eu gwaith yn llwyddiannus a'i adalw.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol**

Mae'r disgyblion i gyd yn llwyddo i weithio'n annibynnol o oedran ifanc, ac erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae bron pob disgybl yn dangos dygnwch a dyfalbarhad llawer uwch na'r disgwyl. Maent yn arwain eu dysgu eu hunain yn llwyddiannus iawn, er enghraifft wrth gwblhau tasgau her mathemategol, sydd yn gofyn am ddatrys nifer o weithgareddau mathemategol cyn cwblhau'r dasg yn llawn. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn iawn o'u cyrhaeddiad a'r camau nesaf sydd angen eu cymryd er mwyn gwella eu gwaith. Mae hyn yn eu paratoi'n wych i fod yn ddysgwyr trwy gydol oes. Mae'r disgyblion i gyd yn cyfrannu'n effeithiol iawn at waith y dosbarth trwy leisio barn am yr hyn maent am ei ddysgu. O ganlyniad, maent yn ddysgwyr brwdfrydig iawn, sydd yn ymdrechu i wneud eu gorau bob amser.

Mae llais y disgybl yn cael lle amlwg ym mywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r nifer o grwpiau sy'n cynrychioli barn eraill yn cyflawni eu rolau mewn modd aeddfed a synhwyrol. Maent yn cyflwyno adroddiadau cynhwysfawr am eu gwaith i'r llywodraethwyr a'r rhieni yn hyderus a chyda balchder amlwg. Mae'r enghreifftiau nodweddiadol yn cynnwys gwaith y 'Dreigiau Caseg' i hybu'r defnydd o'r Gymraeg ar y buarth. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at greu'r naws Gymreig gref sydd yn bodoli yn yr ysgol. Mae'r 'sgwad syniadau' yn cynorthwyo'r ysgol i gynnal a chadw lefelau presenoldeb da, trwy drefnu seremonïau gwobrwyo wythnosol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar lefelau presenoldeb y disgyblion.

Mae'r disgyblion yn cydweithio a chydchwarae yn hapus a heddychlon, sydd yn creu ethos arbennig iawn yn yr ysgol. Maent yn hynod foesgar, yn rhannu gyda'i gilydd, yn aros eu tro ac yn gwrando'n astud ar syniadau eraill. Maent yn dangos parch a gofal tuag at ei gilydd ac oedolion ac yn awyddus iawn i gynnig help llaw i eraill. Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn arbennig o dda yn y gwersi a thu allan i'r dosbarth.

Mae gan bron pob disgybl ddealltwriaeth dda iawn o sut i gadw'n iach trwy fwyta diet cytbwys, a chadw'n heini trwy ymarfer corff. Mae llawer yn mynychu clybiau ffitrwydd ar ôl ysgol a bron pob un yn defnyddio eu hamser egwyl yn teithio ar hyd y llwybr antur, ymarfer sgiliau pêl neu sgipio. Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd sicrhau byd cynaliadwy, er enghraifft trwy helpu i drefnu gweithgareddau fel ailgylchu poteli llaeth plastig i greu offer mathemateg a dalwyr pensiliau. Mae bron pob disgybl yn datblygu'n ddinasyddion moesol cydwybodol trwy drefnu gweithgareddau i gynorthwyo sefydliadau elusennol, er enghraifft trwy godi arian tuag at sefydlu cronfeydd dŵr glân yn Affrica ac Asia.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae safon yr addysgu yn dda. Mae gan yr holl staff ddealltwriaeth gadarn o egwyddorion ac addysgeg y cyfnod sylfaen ac mae hyn yn datblygu medrau annibyniaeth yn y disgyblion yn gynnar iawn. Mae pob athro yn darparu amryw o weithgareddau sydd yn ysgogi ac yn ennyn diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus. Mae’r addysgu yn seiliedig ar her uchel a chyson a disgwyliadau uchel gan yr athrawon. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o amrywiaeth o ddulliau addysgu llwyddiannus, sy’n sicrhau bod bron pob disgybl yn cyflawni’n dda ac yn ymgymryd yn llwyr â’u dysgu.

Mae gan yr holl athrawon berthynas gref iawn gyda'r disgyblion ac maent yn ystyried anghenion unigolion yn dda. Ym mhob dosbarth, mae'r cymhorthyddion yn helpu'r athrawon yn llwyddiannus. Mae pob oedolyn yn holi disgyblion yn fedrus er mwyn ymestyn a datblygu ymatebion y disgyblion ymhellach. Maent yn mynnu ar safon uchel o gywirdeb iaith yn barhaus.

Mae athrawon yn asesu gwaith disgyblion yn gywir ac yn gwneud defnydd da o'u hasesiadau i osod targedau ar gyfer disgyblion, er mwyn gwella eu medrau rhifedd a llythrennedd. Mae’r athrawon yn cynnig adborth llafar ac ysgrifenedig pwrpasol ac effeithlon, gan ofalu bod y disgyblion yn deall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella. Mae’r disgyblion yn gwneud y mwyaf o’r cyfleoedd eang i asesu eu gwaith eu hunain a thrafod eu gwaith gyda phartner. Mae hyn yn creu dysgwyr annibynnol effeithiol, sy’n medru adnabod agweddau da ac agweddau i’w gwella yn eu gwaith ac yng ngwaith eraill.

Mae gan yr holl staff ddisgwyliadau uchel o ymddygiad disgyblion ac, o ganlyniad, cynhelir gwersi mewn modd trefnus, gweithgar a pharchus.

Mae cynlluniau gwaith yr athrawon yn seiliedig ar themâu diddorol, gyda’r gweithgareddau dan do ac yn yr awyr agored yn meithrin medrau annibynnol y disgyblion yn hynod effeithiol. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau rhifedd y disgyblion yn eu herio i gyflawni gwaith o safon uchel ar draws y meysydd dysgu yn llwyddiannus. Mae’r cynllunio strwythuredig i ddatblygu medrau darllen y disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar eu safonau. Mae’r modd y mae’r athrawon yn cynllunio, ac yn creu cyfleoedd i’r disgyblion ddatblygu eu medrau llafar, yn gryfder yn yr ysgol. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn cyfathrebu’n hyderus, gan ddefnyddio iaith goeth a chywir. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau ysgrifennu’r disgyblion yn eu cynorthwyo i ddysgu patrymau iaith cywir ac ymestyn eu geirfa yn llwyddiannus. Fodd bynnag, prin yw’r cyfleoedd iddynt gymhwyso eu medrau da yn annibynnol ar draws y meysydd dysgu. Ar y cyfan, nid yw’r ddarpariaeth ar gyfer TGCh yn ddigon strwythuredig i sicrhau dilyniant ym medrau’r disgyblion wrth iddynt symud trwy’r ysgol.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig yn gadarn iawn, er enghraifft trwy gystadlu’n llwyddiannus mewn eisteddfodau, efelychu gwaith arlunwyr Cymreig, dysgu clocsio a chlywed amryw straeon a rhigymau traddodiadol. Mae’r ymweliadau â’r ardal leol, fel Parc Meurig a tref Bethesda, yn cyfoethogi profiadau’r disgyblion yn effeithiol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned ofalgar a hapus. Mae’r staff yn cynnig cymorth a chefnogaeth lwyddiannus i’r disgyblion ac yn eu hannog i ymfalchïo yn eu gwaith ac i gyfrannu’n sylweddol at y gweithgareddau amrywiol sy’n digwydd.

Mae’r diwylliant cyfoethog o barch, cydraddoldeb a thegwch sy’n bodoli yn hybu nodau’r ysgol yn llwyddiannus. Caiff hyn ei atgyfnerthu drwy brofiadau pwrpasol fel astudiaethau o wledydd eraill a gweithgareddau elusennol. Mae hyn yn meithrin parch y disgyblion tuag at ddiwylliannau eraill ac yn eu hannog i dyfu’n ddinasyddion ystyriol.

Mae’r staff yn adnabod y disgyblion a’u teuluoedd yn dda ac mae ganddynt berthynas gadarn ac effeithiol gyda nhw. Mae'r staff yn rhannu gwybodaeth am weithgareddau’r ysgol gyda’r rhieni yn rheolaidd trwy’r wefan a chyfarfodydd cwricwlaidd. Mae hyn yn galluogi rhieni i gefnogi gwaith eu plant yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion. Mae hyn yn galluogi’r athrawon i gaffael gwybodaeth gyfredol am gynnydd a chyrhaeddiad y disgyblion er mwyn cefnogi unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion yn gyflym. O ganlyniad, mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Mae gan bob un o’r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun datblygu unigol pwrpasol ynghyd â thargedau clir a phendant. Defnyddir y rhain yn effeithiol gan staff wrth iddynt gynllunio ymyraethau priodol ar eu cyfer. Mae’r staff ategol yn ymwybodol iawn o dargedau gwella disgyblion penodol ac maent yn eu cefnogi’n dda iawn i’w cyrraedd. Mae hyn yn galluogi bron pob un o’r disgyblion i wneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae’r ysgol yn cydweithio’n llwyddiannus iawn ag asiantaethau amrywiol, fel y seicolegydd addysg ac athrawon arbenigol ymddygiad a lleferydd, i ddarparu cefnogaeth arbenigol a phwrpasol i’r disgyblion sydd ei hangen.

Mae gan yr ysgol ymwybyddiaeth glir o ofynion iechyd, emosiynol a chymdeithasol disgyblion unigol, ac o ganlyniad, yn llwyddo i gefnogi’r disgyblion hyn yn dda. Un o nodweddion cryf y ddarpariaeth yw’r ffordd y mae’r ysgol yn cynnwys yr holl ddisgyblion ym mhob gweithgaredd. Mae’r gweithgareddau addysg bersonol a chymdeithasol amrywiol yn datblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol bron pob un o’r disgyblion yn dda. Mae swyddog yr heddlu yn ymwelydd rheoliadd ac yn addysgu’r disgyblion am sut i gadw’n ddiogel y tu allan i’r ysgol, er enghraifft pan fyddant ar y we.

Caiff y disgyblion nifer o gyfleoedd gwerthfawr i ysgwyddo cyfrifoldebau trwy fod yn aelodau o wahanol gynghorau neu grwpiau arweiniol, er enghraifft ‘Sgwad Syniadau’, ‘Ffrindiau Ffitrwydd’ a ‘Bydis Buarth’. Mae hyn yn ehangu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion gweithgar a chyfrannu’n gyson o fewn eu cymuned. O ystyried eu hoedran, mae’r disgyblion yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif ac yn ymfalchïo yn eu gwaith. Mae’r elfen hon yn gryfder yn yr ysgol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i annog disgyblion i fwyta ac yfed yn iach ac mae’r staff yn hybu dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd ymarfer corff yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisïau sy'n sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda. Mae staff yn trefnu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio mewn gwasanaethau ac amser cylch.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir sy'n seiliedig ar ddarparu addysg o safon uchel i'r disgyblion, sy'n eu hannog i feithrin y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i fod yn aelodau cyfrifol o'u cymuned. Er dros flwyddyn bellach, mae'r pennaeth wedi datblygu ei rôl fel arweinydd y ffederasiwn yn gadarn. Mae'r weledigaeth gytûn ar gyfer y ffederasiwn yn cael ei rhannu'n briodol gyda'r disgyblion, y staff ac aelodau'r corff llywodraethol. Mae'r athrawon yn ei chefnogi'n fedrus trwy gymryd cyfrifoldeb am ddatblygu elfennau o fywyd a gwaith yr ysgol, fel llythrennedd a rhifedd, yn effeithiol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion, yn enwedig eu medrau rhifedd a llafar. Erbyn hyn, mae arweinwyr yn dechrau rhannu arfer dda a welir yn y ddwy ysgol ar draws ei gilydd, i ddatblygu cysondeb yn y ddarpariaeth. Mae enghraifft nodedig yn cynnwys rhannu dulliau dysgu darllen gan gynnwys darparu cyngor mewn ffurf fideo i rieni gefnogi eu plant adref. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion yn ogystal â datblygu medrau arweinyddiaeth yr athrawon yn effeithiol. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar i'r ffederasiwn ac nid yw'r arferion hyn wedi eu datblygu'n llawn ar draws y ddwy ysgol.

Mae gan bob aelod staff ddealltwriaeth gadarn o'u rolau ac maent yn cwrdd yn rheolaidd i drafod y ddarpariaeth, deilliannau a lles disgyblion. Maent yn dangos ymrwymiad cryf i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau pellach trwy weithredu nifer o strategaethau pwrpasol, fel gwella medrau llafar a TGCh disgyblion. Mae ymdeimlad cryf o waith tîm yn sicrhau bod pawb yn cydweithio'n effeithiol i ddiwallu gweledigaeth yr ysgol yn llwyddiannus.

Ers iddynt sefydlu fel corff, mae'r llywodraethwyr wedi cydweithio'n effeithiol â'r pennaeth i ddatblygu gweithdrefnau pwrpasol i'w cynorthwyo i gael trosolwg clir o fywyd gwaith y ddwy ysgol fel ei gilydd. Mae cyfarfodydd rheolaidd a gwybodaeth gyson ar ffurf adroddiadau gan y pennaeth ac arweinwyr eraill, yn sicrhau bod ganddynt wybodaeth gadarn am berfformiad yr ysgol sy'n eu galluogi i'w chefnogi ac i ddwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn llwyddiannus. Er mwyn cyfoethogi hyn ymhellach, mae llywodraethwyr yn ymweld â'r ysgolion yn eu tro er mwyn cydweithio ag arweinwyr a'r staff i graffu ar lyfrau, trafod gyda staff a disgyblion ac ymgymryd â theithiau dysgu buddiol. Enghraifft dda o hyn yw'r daith ddysgu ar draws y ddwy ysgol i ddysgu mwy am ddatblygiad ysgrifennu disgyblion o'r meithrin i Flwyddyn 6. Mae hyn yn sicrhau bod ganddynt drosolwg clir o waith y ddwy ysgol fel ei gilydd.

Mae gweithdrefnau pwrpasol ar gyfer hunanarfarnu elfennau creiddiol o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o ddadansoddiad data perfformiad, canfyddiadau craffu ar lyfrau, yn ogystal â chywain barn rhieni a disgyblion. Maent yn gwneud defnydd da o farn partneriaid strategol eraill sy'n ymweld â'r ysgol, gan gynnwys yr awdurdod lleol a phenaethiaid o ysgolion lleol. Yn

gyffredinol, mae'r adroddiad hunanarfarnu yn bwrpasol ac yn cynnig darlun clir o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae cyswllt cryf rhwng deilliannau'r adroddiad hwnnw a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio'n gadarn ar wella safonau ac yn nodi cyfrifoldebau staff yn glir. Mae'r staff cyfan yn rhan o arfarnu cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau ac maent yn ymwybodol iawn o'u cyfrifoldebau i wireddu'r targedau.

Mae gan yr ysgol nifer briodol o staff cymwysedig i ddiwallu'r cwricwlwm. Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn manteisio ar arbenigeddau staff yn briodol, er enghraifft trwy addysgu datblygiad corfforol a chreadigol ar draws yr ysgol. Mae'r trefniadau i reoli perfformiad staff yn effeithiol ac yn gosod amcanion buddiol i ddatblygu eu medrau a'u dealltwriaeth ar faterion sy'n seiliedig ar flaenoriaethau'r ysgol. O ganlyniad, mae'r holl staff yn cael cyfleoedd priodol i ddatblygu'n broffesiynol yn unol â'u hanghenion personol ac anghenion yr ysgol.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli gwariant yn effeithiol. Gwneir defnydd effeithlon o'r grant datblygu disgyblion i gefnogi disgyblion penodol mewn meysydd fel llythrennedd a rhifedd, yn ogystal â chynnig gwersi offerynnol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018 Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/04/2018